

Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol Staff

Mae ceisio cytundeb myfyrwyr, rhieni a staff i'r Rheolau e-Ddiogelwch yn bwysig a bydd angen rheoli hyn. Bydd nifer o ysgolion yn ceisio'r caniatâd hwn pan fyddant yn gwirio'r manylion cyswllt cartref a brys unwaith bob blwyddyn.

Mae'n bwysig dechrau o'r rhagdybiaeth bod defnydd o TGCh a'r rhyngwrwyd yn rhywbeth bob dydd ac yn hanfodol ar gyfer addysg pob plentyn a gwaith ysgol cyffredinol. Gallai'r cytundeb rhwng staff, rhieni a'r ysgol gynnwys cymal megis:

Mae technolegau newydd yn rhan annatod o fywydau plant a phobl ifanc yn y gymdeithas fodern, o fewn ysgolion ac yn eu bywydau y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhyngwrwyd a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu digidol eraill yn offer pwerus sy'n agor cyfleoedd newydd i bawb. Gall y technolegau hyn ysgogi trafodaeth, hybu creadigrwydd ac ymwybyddiaeth o gyd-destun er mwyn hyrwyddo dysgu effeithiol. Mae cyfleoedd hefyd i staff fod yn fwy creadigol a chynhyrchiol yn eu gwaith. Dylai fod hawl gan bob defnyddiwr i gyrchu'r rhyngwrwyd yn ddiogel bob amser.

Mae'r Polisi Defnydd Derbyniol hwn yn ceisio sicrhau:

- bydd staff a gwirfoddolwyr yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngwrwyd a thechnolegau cyfathrebu eraill at ddefnydd addysgol, personol ac adloniadol.
- bod systemau TGCh yr ysgol a defnyddwyr wedi'u diogelu rhag camddefnyddio damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch systemau a defnyddwyr.
- bod staff wedi'u diogelu rhag y risg posibl yn eu defnydd o TGCh yn eu gwaith bob dydd.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau y bydd mynediad da gan staff a gwirfoddolwyr i TGCh er mwyn gwella eu gwaith, gwella cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr ac, yn ei dro, bydd yn disgwyl i staff a gwirfoddolwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol

Deallaf fod rhaid i mi ddefnyddio systemau ac offer TGCh yr ysgol mewn ffordd gyfrifol, gan sicrhau nad oes unrhyw risg i'm diogelwch i neu i ddiogelwch systemau TGCh a defnyddwyr eraill. Cydnabyddaf werth defnyddio TGCh ar gyfer gwella dysgu a byddaf yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfleoedd i elwa o ddefnyddio TGCh. Lle'n bosibl, byddaf yn addysgu'r bobl ifanc yn fy ngofal sut i ddefnyddio TGCh yn ddiogel a phlannu e-ddiogelwch yn fy ngwaith gyda phobl ifanc.

1. Ar gyfer fy niogelwch proffesiynol a phersonol:

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o'r systemau TGCh, e-bost a chyfathrebu digidol arall.
- Deallaf fod y rheolau a nodir yn y cytundeb hwn hefyd yn gymwys i ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol (e.e. gliniaduron, e-bost, Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) ac ati) yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol (dylai ysgolion addasu'r adran hon yn unol â'u polisiau sy'n ymwneud â defnyddio systemau ac offer ysgol y tu allan i'r ysgol).
- Deallaf fod systemau TGCh yr ysgol wedi'u bwriadu i'w defnyddio at ddefnydd addysgol yn bennaf a byddaf yn defnyddio'r systemau at ddefnydd personol neu adloniadol o fewn y polisiau a'r rheolau a osodir gan yr ysgol yn unig (dylai ysgolion newid yr adran hon yn unol â'u polisiau sy'n ymwneud â defnydd personol gan staff o systemau'r ysgol).
- Ni fyddaf yn datgelu fy enw defnyddiwr neu gyfrinair i unrhyw un arall, ac ni fyddaf yn ceisio defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair unrhyw un arall.
- Byddaf yn adrodd ar unwaith am unrhyw ddeunyddiau neu ddigwyddiad anghyfreithlon, amhriodol neu niweidiol rwyf yn ymwybodol ohono i'r unigolyn priodol.

2. Byddaf yn broffesiynol yn fy nghyfathrebiadau a'm gweithredoedd wrth ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol:

- Ni fyddaf yn cyrchu, copïo, dileu neu newid fel arall unrhyw ffeiliau defnyddiwr, heb ei ganiatâd penodol.
- Byddaf yn cyfathrebu ag eraill mewn ffordd broffesiynol, ac ni fyddaf yn defnyddio iaith ymosodol neu amhriodol a gwerthfawrogaf y gall fod barn wahanol gan bobl eraill.
- Byddaf yn sicrhau pan fyddaf yn tynnu a/neu'n cyhoeddi lluniau o bobl eraill y byddaf yn gwneud hynny gyda'u caniatâd nhw ac yn unol â pholisi'r ysgol ar ddefnyddio delweddau digidol/fideo. Ni fyddaf yn defnyddio fy offer personol i gofnodi'r delweddau hyn, oni bai bod caniatâd gennyf i wneud hynny. Os yw'r delweddau hyn wedi'u cyhoeddi (e.e. ar wefan yr ysgol / VLE) ni fydd modd adnabod drwy enw, neu wybodaeth bersonol arall, pwy sydd ynddynt.
- Byddaf yn defnyddio safleoedd sgwrsio a rhwydweithio cymdeithasol yn yr ysgol yn unol â pholisiau'r ysgol yn unig (dylai ysgolion addasu'r adran hon er mwyn ystyried eu polisi ar fynediad i rhwydweithiau cymdeithasol a safleoedd tebyg).
- Byddaf yn cyfathrebu â myfyrwyr a rhieni/gofalwyr drwy ddefnyddio systemau swyddogol yr ysgol yn unig. Bydd unrhyw gyfathrebu o'r fath yn broffesiynol o ran tôn a dull (dylai ysgolion addasu'r adran hon er mwyn ystyried eu polisi ar gyfathrebu â myfyrwyr a rhieni / gofalwyr). Dylai staff fod yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio eu cyfeiriadau e-bost personol / ffonau symudol / safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer cyfathrebiadau o'r fath).
- Ni fyddaf yn ymwneud ag unrhyw weithgarwch ar-lein a allai gyfaddawdu fy nghyfrifoldebau proffesiynol.

3. Mae'r ysgol a'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu mynediad diogel i dechnolegau a sicrhau gweithrediad rhwydd yr ysgol:

- Pan fyddaf yn defnyddio fy nyfeisiau llaw / allanol personol (PDAs / gliniaduron / ffonau symudol / dyfeisiau USB ac ati) yn yr ysgol, byddaf yn dilyn y rheolau yn y cytundeb hwn yn yr un ffordd â phe byddwn yn defnyddio offer yr ysgol. Byddaf hefyd yn dilyn unrhyw reolau ychwanegol a osodir gan bolisi 'Dod â'ch dyfais eich hun' yr ysgol ynghylch defnydd o'r fath. Byddaf yn sicrhau bod unrhyw ddyfeisiau o'r fath wedi'u diogelu gan y meddalwedd gwrthfeirysau diweddaraf ac yn rhydd o feirysau (dylai ysgolion newid yr adran hon yn unol â'u polisiau sy'n ymwneud â defnydd o ddyfeisiau staff).
- Ni fyddaf yn agor unrhyw atodiadau i e-byst, oni bai bod y ffynhonnell yn hysbys ac yn ddibynadwy, oherwydd y risg bod yr atodiad yn cynnwys feirysau neu raglenni niweidiol eraill.
- Byddaf yn sicrhau bod fy nata yn cael ei ategu'n rheolaidd yn unol â pholisiau perthnasol yr ysgol.
- Ni fyddaf yn ceisio lanlwytho, lawrlwytho neu gael mynediad i unrhyw ddeunyddiau sy'n anghyfreithlon (delweddau cam-drin plant yn rhywiol, deunyddiau hiliol troseddol, pornograffi oedolion sydd wedi'u cwmpasu gan Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad) neu sy'n amhriodol neu a all achosi niwed neu ofid i eraill. Ni fyddaf yn ceisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd a allai fy ngalluogi i osgoi'r systemau hidlo / diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad i ddeunyddiau o'r fath.
- Ni fyddaf yn ceisio (oni bai bod caniatâd gennyf) gwneud lawrlwythiadau neu lanlwythiadau mawr a allai gymryd capasiti'r rhyngwrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag cyflawni eu gwaith.
- Ni fyddaf yn gosod neu'n ceisio gosod rhaglenni o unrhyw fath ar beiriant, neu storio rhaglenni ar gyfrifiadur, ac ni fyddaf yn ceisio newid gosodiadau cyfrifiaduron, oni bai bod hyn wedi'i ganiatáu ym mhollisiau'r ysgol.
- Ni fyddaf yn analluogi neu'n achosi unrhyw ddifrod i offer yr ysgol, neu offer sy'n perthyn i bobl eraill.
- Byddaf yn cludo, dal, datgelu neu'n rhannu gwybodaeth bersonol yn unig amdanaf i neu eraill, fel yr amlinellir ym Mholisi Data Personol yr Ysgol / ALI (neu bolisi perthnasol arall yr ysgol). Os yw data personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r rhwydwaith ysgol diogel, rhaid iddo gael ei amgryptio.
- Deallaf fod polisi diogelu data yn gofyn i unrhyw ddata am staff neu fyfyrwr / disgybl y gallaf ei gyrchu gael ei gadw'n breifat ac yn gyfrinachol, ac eithrio pan ystyrir bod angen i mi, yn ôl y gyfraith neu gan yn ôl polisi'r ysgol, ddatgelu gwybodaeth o'r fath i awdurdod priodol.
- Byddaf yn adrodd ar unwaith unrhyw ddifrod neu namau sy'n cynnwys offer neu feddalwedd, sut bynnag y digwyddodd hyn.

4. Wrth ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn fy rhinwedd proffesiynol neu at ddefnydd personol wedi'i gymeradwy gan yr ysgol:

- Byddaf yn sicrhau bod caniatâd gennyf i ddefnyddio gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith fy hun.
- Os yw'r gwaith wedi'i ddiogelu gan hawlfraint, ni fyddaf yn lawrlwytho neu'n dosbarthu copïau (gan gynnwys cerddoriaeth a fideos).

5. Deallaf fy mod i'n gyfrifol am fy ngweithredoedd y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol:

- Deallaf fod y Polisi Defnydd Derbyniol hwn yn gymwys nid yn unig i'm gwaith a'r defnydd o offer TGCh yr ysgol yn yr ysgol, ond hefyd i'm defnydd o systemau ac offer TGCh yr ysgol y tu allan i'r ysgol a'm defnydd o offer personol yn yr ysgol neu mewn sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â'm cyflogaeth gan yr ysgol.
- Deallaf os ydw i'n methu â chydymffurfio â'r Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol hwn, gallaf fod yn destun camau disgyblu. Gallai hyn gynnwys (dylai ysgolion newid yr adran hon i ddarparu sancsiynau perthnasol ynghylch eu polisiau ymddygiad) rhybudd, gwaharddiad, cyfeiriad at Lywodraethwyr a/neu'r Awdurdod Lleol ac yn achos gweithgareddau anghyfreithlon, gweithredu gan yr heddlu.

Polisi Defnydd Derbyniol Staff ar gyfer TGCh

Gall yr ysgol arfer ei hawl i fonitro'r defnydd o systemau gwybodaeth a mynediad i'r rhwydwaith yr ysgol i ryng-gipio e-byst a dileu deunyddiau amrywiol os yw'n credu bod system wybodaeth yr ysgol yn cael ei defnyddio heb awdurdod, neu gall y system gael ei defnyddio at ddibenion troseddol neu ar gyfer storio testun, delweddau neu sain diawdurdod neu anghyfreithlon.

Bydd torri'r polisi hwn yn cael ei ystyried yn achos disgyblu difrifol a chaiff ei drin yn unol â'r Polisi a Gweithdrefn Ddisgyblu.

Rwyf wedi darllen ac rwy'n deall yr uchod ac yn cytuno i ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol (yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol) a'm dyfeisiau fy hun (yn yr ysgol ac wrth gyflawni cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r ysgol) o fewn y canllawiau hyn.

Enw:

Llofnodwyd: Dyddiad: